

Patrwm cyflwyno Rhwng mis Hydref a mis Mehefin
Rhwng mis Chwefror a mis Hydref
Mai i Ionawr

Disgrifiad o'r modiwl

Ydych chi'n newydd i astudiaeth addysg uwch neu'n dychwelyd ar ôl seibiant? Mae'r modiwl Mynediad hwn - sydd wedi'i ddylunio i ddatblygu'r sgiliau allweddol sy'n ofynnol ar gyfer astudio'n llwyddiannus yn y brifysgol - yn fan cychwyn delfrydol. Mae'n bosibl y byddwch hyd yn oed yn gallu astudio am ddim. Mae'n cwmpasu tri maes ffocws: Pobl, Gwaith a Chymdeithas, mae'r modiwl amlddisgyblaethol hwn yn archwilio amrywiaeth o feysydd pwnc, gan gynnwys astudiaethau plentyndod ac ieuencid; gwyddorau cymdeithasol; seicoleg; iechyd; rheoli; a'r gyfraith. Byddwch yn datblygu sgiliau academaidd craidd megis darllen, ysgrifennu academaidd a chyfeirnod. Fel rhan o'ch astudiaeth byddwch yn dysgu sut i lywio gwefan modiwl arloesol a rhyngweithiol; y ffordd berffaith o feithrin y sgiliau astudio y bydd eu hangen arnoch i lwyddo yn y cam nesaf yn eich astudiaethau.

(D.S. Bydd Bloc 1 mewn print a bydd llyfr yn cael ei ddarparu; bydd Blociau 2 a 3 ar-lein yn llwyr)

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb person gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol: Hanfodol

1. Gradd neu gymhwyster cyfatebol, neu gymhwyster proffesiynol neu alwedigaethol yn y maes pwnc rydych am ei addysgu
2. Cymhwyster addysgu
3. Gallu amlwg i gefnogi gwaith dysgu ar draws amrywiaeth eang o bynciau mewn cyd-destun amlddisgyblaethol neu ryngddisgyblaethol, y bydd rhai ohonynt y tu allan i'ch arbenigedd eich hun
4. Profiad o gefnogi gwaith dysgu yn rhagweithiol o bell gan ddefnyddio amrywiaeth eang o gyfryngau, gan gynnwys tiwtora un i un dros y ffôn, e-bost, Fforymau Grŵp Tiwtor, ystafelloedd ar-lein
5. Gallu amlwg i helpu myfyrwyr i drosglwyddo i waith dysgu ar-lein er mwyn dod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol
6. Yn ddigidol lythrennog ac yn gallu defnyddio systemau a gwefannau'r Brifysgol Agored, gan gynnwys amgylcheddau dysgu rhithwir modiwlau ac adnoddau ar-lein eraill
7. Ymrwymiad i annog a galluogi dysgwyr sy'n oedolion i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau astudio a fydd yn eu paratoi ar gyfer mynediad at addysg uwch
8. Gallu amlwg i gefnogi myfyrwyr ag anghenion cymhleth sy'n dod o gefndiroedd amrywiol (gan gynnwys myfyrwyr ag anabledau, cymwysterau addysgol blaenorol isel, o ardaloedd â lefelau amddifadedd uchel ac sydd wedi bod dan anfantais yn draddodiadol) ac mewn amgylchiadau gwahanol
9. Yn ymarferydd adfyfyriol ac yn dangos y gallu i ystyried adborth datblygiadol i wella ymarfer ac yn ymgysylltu'n weithredol â chyfleoedd datblygu i'r staff a'r gymuned addysgu ehangach
10. Gallu amlwg i roi adborth adeiladol a chefnogol mewn tiwtorialau ac ar aseiniadau

Dymunol

1. Profiad o gefnogi gwaith dysgu oedolion o bell
2. Cydnabyddiaeth Advance HE neu debyg (e.e. safonau proffesiynol y Sefydliad Addysg a Hyfforddiant)

Gwybodaeth ychwanegol:

Disgwylir i diwtoriaid fod yn rhagweithiol o ran cysylltu â myfyrwyr a darparu tiwtorialau un i un dros y ffôn yn ogystal ag adborth ysgrifenedig ar aseiniadau. Er mai ffocws y tiwtorialau hyn yw datblygu dealltwriaeth myfyrwyr o ddeunyddiau'r modiwl, mae hefyd yn bwysig mynd i'r afael â'u hanghenion sgiliau astudio unigol a darparu cymorth ysgogol. Bydd yn ofynnol i fyfyrwyr ddefnyddio fforymau grŵp tiwtor ar gyfer rhai o'u gweithgareddau ar y modiwl, a bydd disgwyl i diwtoriaid fynd ati'n rhagweithiol i sefydlu'r rhain, annog y myfyrwyr i'w defnyddio, a'u monitro. Bydd disgwyl i diwtoriaid gynnal rhai sesiynau mewn ystafelloedd ar-lein tuag at ddiwedd y cyflwyniad er mwyn paratoi myfyrwyr ar gyfer tiwtorialau ar-lein mewn modiwlau yn y dyfodol.

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	4
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	17
Band cyflog:	7
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	7

Gall fod cyfleoedd i Ddarlithwyr Cyswllt ymgymryd â gwaith asesu cysylltiedig y ceir tâl ychwanegol amdano – byddwn yn cysylltu â chi ar wahân os yw'n berthnasol.